**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 28 IONAWR 2021 DYDD IAU, 28 IONAWR 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: Cynghorydd Julie Holt (Is-gadeirydd, yn y Gadair)

Councillors P. Baldwin
D. Bevan
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
G. L. Davies
M. Day
P. Edwards
L. Elias
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
M. Holland
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem
T. Smith

B. Summers
B. Thomas
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Anne-Louise Clark (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |
| Andrea Prosser (Swyddog) |
| Gemma Wasley (Swyddog) |
| Louise Bishop (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M. Moore. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Adroddwyd y datganiad buddiant dilynol:<br><br>**Eitem Rhif 34: Cais i Lesu Tir** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorydd W. Hodgins | |
| **No. 4** | **<u>CHARLOTTE CLARKE – MAER IEUENCTID AR GWBLHAU EI THYMOR YN Y SWYDD</u>**<br><br>Ymunodd y Cynghorydd T. Sharrem â’r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Rhoddodd Charlotte Clarke, sy’n gadael ei swydd fel Maer Ieuenctid, y cipolwg dilynol ar ei thaith democratiaeth hyd yma.<br><br>Dechreuodd Charlotte drwy ddweud iddi gael amser gwych drwy gydol y ddwy flynedd ddiwethaf, oedd yn cynnwys ei chyfnod fel Dirprwy Faer Ieuenctid. Dechreuodd taith Charlotte pan oedd ar gam gwahanol iawn o’i bywyd, yr ysgol gynradd. Roedd bob amser wedi bod yn uchelgeisiol yn academaidd, gan ymfalchïo yn y swyddi a gyflawnodd, megis prif ferch, swyddog ysgol a dod yn aelod o gyngor yr ysgol. Roedd wrth ei bodd i gael cyfle i fynychu Uwch Gyngor y Plant yn ystod Blwyddyn 6 – digwyddiad yn dod â phlant o bob rhan o’r fwrdeistref ynghyd a oedd yn ysbrydoliaeth ac, yn flaengar ac yn dysgu meddwl annibynnol. Yn y digwyddiad hwn byddai plant yn cymryd rhan mewn tasgau fel ysgrifennu, darlunio a chwarae gemau hwyliog, yr holl weithgareddau’n gysylltiedig â materion cyfoes. Bu’r gweithdy ar ddod yn gyfeillgar i’r amgylchedd yn uchafbwynt personol i Charlotte. Y llynedd, cafodd Charlotte gyfle i ymweld ag Uwch Gyngor y Plant yn rhinwedd ei swydd fel Maer Ieuenctid. Gwnaeth hyn iddi wirioneddol werthfawrogi’n llawn pa mor wych oedd y digwyddiad. O’i safbwynt gallai’n wir ddeall a gwerthfawrogi pa mor ddiddorol ac ysgogol oedd i feddyliau ifanc; sy’n esbonio pam iddi wedi ei fwynhau cymaint o’r blaen.<br><br>Yn haf y flwyddyn honno, roedd Charlotte wedi derbyn llythyr yn dweud y dewiswyd cerdd a ysgrifennodd yn Uwch Gyngor Plant i’w rhoi ar blac ym Mharc Bryn Bach. Roedd hyn wedi gwneud Charlotte yn falch iawn oherwydd yr oedd yn un o’r pethau mawr cyntaf iddi ei gyflawni. Roedd yr atgof am y dadorchuddio, gyda chefnogaeth ei rhieni a’i pherthnasau agos yn annwyl iawn iddi. Yn y digwyddiad hwn cafodd wedyn ei gwahodd i ddod yn aelod o Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent, rhywbeth a wrthododd i ddechrau. Roedd hyn oherwydd ei diffyg hyder, mae mynd i’r ysgol uwchradd yn anodd i’r rhan fwyaf o ddisgyblion, a theimlai’n bryderus ac amheus o’i gallu. Serch hynny, gyda phwysau gan lawer o ffigurau cefnogol yn ei bywyd, penderfynodd ymuno ac wrth edrych yn ôl roedd wrth ei bodd iddi newid ei phenderfyniad | |

oherwydd y bu hyn yn sbardun i bopeth arall. Er bod Charlotte yn dal i uniaethu gyda'r ferch ofnus swil ym Mlwyddyn 7 ac yn dal i gael trafferthion gyda phryder, roedd y Fforwm wedi bod o'i help iddi oresgyn ei hofn. O'r sicrwydd a'r gefnogaeth a roddodd y Fforwm iddi, nid oedd mwyach yn ferch ofnus Blwyddyn 7 ond yn ferch 15 oed oedd yn teimlo'n hyderus wrth osod ei phryder o'r neilltu er mwyn ymdrechu at ei nod.

Pan aeth i'r Fforwm Ieuenctid am y tro cyntaf, roedd etholiadau ar gyfer y Maer Ieuenctid ar fin digwydd a phenderfynodd redeg am swydd ddwy flynedd fel Dirprwy Faer Ieuenctid. Er ei bod yn ansicr iawn fod ganddi gyfle ennill oherwydd diffyg profiad a diffyg perthynas gydag aelodau eraill y fforwm, safodd am etholiad gyda'r nod o wella ei chyfleoedd y flwyddyn ddilynol. Serch hynny, cafodd ei synnu i gael ei hethol a gosododd degwch mislif fel ei blaenoriaeth ar gyfer ei chyfnod fel dirprwy. Profodd hyn yn flaenoriaeth lwyddiannus a gwerth chweil, roedd wedi cwrdd â phobl wych o'r un anian a gwella cyfleusterau mislif i bawb. Mae hyn yn rhywbeth roedd yn angerddol amdano, ac yn dal i fod felly. Dylai pawb sy'n cael mislif gael mynediad i'r cynnyrch sanidol angenrheidiol heb ymyrryd ar eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol ac yn sicr heb eu gadael mewn anawsterau ariannol. Aeth Charlotte ymlaen drwy ddweud ei bod yn frwdfrydig am y newidiadau a ddigwyddodd ers iddi osod y flaenoriaeth, er enghraifft mae'r dreth ar werth yn cael ei diddymu mewn cynifer o leoedd. Dros ei thymor fel Dirprwy Faer Ieuenctid roedd hefyd wedi gweithio gyda'r Maer Ieuenctid ar ei blaenoriaeth: hawliau LBGTQ+, ynghyd â phrif flaenoriaeth y Fforwm o iechyd meddwl.
Y flwyddyn ddilynol cafodd Charlotte ei hethol yn Faer Ieuenctid mewn cyfarfod sefydlu hynod. Roedd hyn y Siambrau Cyngor Caerdydd gydag ymweliad difyr i'r Ffair Aeaf wedyn. Ei blaenoriaeth eleni oedd canolbwyntio ar iechyd meddwl ac yn arbennig ddelwedd corff. Yn anffodus, oherwydd pandemig Covid-19, nid oedd Charlotte wedi llwyddo i gyflawni popeth a ddymunai ar y flaenoriaeth hon ond mae'n dal i gydnabod pwysigrwydd delwedd corff gyda phobl ifanc a sut y gallai dra-arglwyddiaethu ar iechyd meddwl rhywun. Felly dyma'r rheswm pam iddi barhau i weithio ar y flaenoriaeth, er nid yn ei rôl fel Maer Ieuenctid. Roedd wedi gwneud hyn yn wyneb y prosiectau yn yr ysgol, gan ymgyrchu drosto ymysg ei chyfoedion, a chyfrannu at weithdai delwedd corff. Uchafbwynt ei blwyddyn fel Maer Ieuenctid oedd dathlu hawliau plant yng Nghaerdydd lle cymerodd ran mewn trafodaethau a gweithgareddau gyda siaradwyr gwych.

| | | |
|---|---|---|
| | Fodd bynnag, nid oedd Covid-19 wedi llwyddo i ddifetha popeth. Eleni roedd Charlotte yn falch iawn i ddal i fedru cymryd rhan yn ei rôl fel aelod Blaenau Gwent yn Senedd Cymru. Ei chynnig a gafodd ei greu ynghyd â thri Aelod arall o'r Senedd Ieuenctid oedd 'Gwell Addysg Iechyd Meddwl ar gyfer Disgyblion a Gwell Hyfforddiant ar gyfer Staff'. Roedd wedi mwynhau gweithio ar y cynnig hwn a'r broses a ddaeth gydag ef yn fawr iawn. Ers y gynhadledd flynyddol ym mis Medi, roedd wedi bod wrth ei bodd yn gweithio i sicrhau y caiff lleisiau pobl ifanc yng Nghymru eu clywed yn haeddiannol. Bu'n weithgar fel Aelod Blaenau Gwent ar Senedd Ieuenctid Cymru ac wedi mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau eraill o Senedd Ieuenctid Cymru yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Dywedodd Charlotte fod hyn yn cwblhau ei thaith hyd yma yn y ffordd fwyaf cryno y gallai ddisgrifio profiad mor wych. Mae'r digwyddiadau y bu ynddynt, y bobl y daeth i gysylltiad â nhw a'r cyfleoedd a gafodd i gyd wedi helpu i siapio'r person sy'n siarad gyda'r Cyngor heddiw. Gyda llawer iawn o edmygedd, rhannodd y profiadau hyn. Er ei bod yn ansicr beth yw'r dyfodol, roedd Charlotte ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar astudio yn y gobaith o gael canlyniadau TGAU gwych, gan anelu am raddau A ac A*. Coleg fyddai ei cham nesaf wedyn, gan baratoi ei hun am yrfa nad yw wedi penderfynu arni eto ac ar ôl hynny gobeithiai fynd i brifysgol. Pa bynnag lwybr y penderfynai arno, roedd Charlotte yn hyderus mai ei gwaith yma oedd wedi cryfhau'r nodweddion sydd eu hangen i ddilyn hynny.<br><br>Daeth Charlotte i ben drwy ddiolch i'r Cyngor am roi amser i wrando a dywedodd y gobeithiai ei bod wedi rhoi adroddiad diddorol o waith rhagorol ieuenctid Blaenau Gwent.<br><br>Cafodd Charlotte ei chanmol gan yr Aelodau am ei thaith wirioneddol ysbrydoledig hyd yma a datgan eu dymuniadau gorau iddi ar gyfer y dyfodol. | |
| **No. 5** | **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw gyhoeddiadau. | |
| **No. 6** | **<u>LLYFR COFNODION – MEDI 2020 – IONAWR 2021</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Medi 2020 – Ionawr 2021 i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 7** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **<u>CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 21** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 22** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 23** | **<u>PWYLLGOR ARCHWILIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 24** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 25** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 26** | **<u>CWESTIYNAU AELODAU</u>** | |

Derbyniwyd y cwestiwn dilynol gan y Cynghorydd H. McCarthy ac ymatebwyd iddo gan yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd.

**Cwestiwn:**

"Er bod y Grŵp Llafur yn rhoi croeso cyffredinol i benderfyniad y Pwyllgor Gweithredol i symud ymlaen gyda Throsglwyddo Ased Cymunedol Capel y Drindod i Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo, a all yr Aelod Gweithredol roi sicrwydd y cynhelir cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ystyrlon ar newidiadau yn awr i'r ddarpariaeth Llyfrgell ar draws y pedair ward?"

**Ymateb:**

Dywedodd yr Aelod Gweithredol fod Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn gweithredu'r gwasanaethau llyfrgell ac na fyddai'r gwaith a wnaed yn newid y ddarpariaeth gwasanaeth, yn wir byddai'n hybu a gwella'r gwasanaeth. Dywedwyd mai'r unig newid mawr fyddai cyflwyno Gwasanaethau Addysg Oedolion gyda'r ddarpariaeth llyfrgell.

**Cwestiwn Atodol:**

**"**Heblaw am y cynnig i symud y llyfrgell, mae'r penderfyniad yn cyd-fynd â chynnig gwreiddiol y Grŵp Llafur. Roedd yn ymddangos yn ddibwynt i symud y llyfrgell ac yn brin o ddychymyg neu arloesi ac ni fyddai'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer y defnyddwyr, tra byddai archfarchnad gymunedol yn amlwg yn gwneud hynny. A fedrai'r Aelod Gweithredol esbonio sut mae wedi cymryd 4 blynedd i gyrraedd y cam hwn, pan mai'r cyfan a wneir yw symud llyfrgell a gafodd ei adeiladu'n bwrpasol a'i adnewyddu'n llawn i leoliad arall?"

**Ymateb:**

Esboniodd yr Aelod Gweithredol fod hyn ymhell o ddim ond symud y llyfrgell i leoliad newydd. Mae wedi cymryd amser i sicrhau'r cyllid er mwyn cwblhau'r prosiect a gweithio mewn ymgynghoriad gydag Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a Llywodraeth Cymru, sicrhawyd y grantiau i wneud hyn erbyn hyn. Mynegodd ei werthfawrogiad i Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a swyddogion am y gwaith

| | | |
|---|---|---|
| | sylweddol a wnaed i ddod â dau brosiect da i ffrwyth yn y ddau adeilad.<br><br>Aeth yr Aelod Gweithredol ymlaen drwy ddweud y byddai Capel y Drindod yn llyfrgell a hefyd yn safle cymunedol lle gellid, er enghraifft, ofyn am gyngor ariannol drwy gyfleoedd a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo. Nodwyd y byddai'r safle hefyd yn cynnwys peiriant dosbarthu arian a chynhelir dosbarthiadau celf yn y safle. Mae gan y llyfrgell, drwy Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, hefyd gyfle i gynllunio'n bwrpasol yr hyn maent ei eisiau yn y cyfleuster. Mae'n credu y byddai nifer y defnyddwyr yn cynyddu a phan gyhoeddir y cynlluniau yr wythnos nesaf, byddai'r cyfleoedd yn amlwg. Yng nghyswllt yr archfarchnad gymunedol, teimlai Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo y byddai adeilad y llyfrgell presennol yn osodiad gwell o ran mynediad a threfniadau darpariaeth.<br><br>Daeth yr Aelod Gweithredol i ben drwy ddweud fod y Cyngor a'i bartneriaid wedi symud yn gyflym i gwblhau'r ddau brosiect er mwyn osgoi oedi i gynllun Capel y Drindod ac agor archfarchnad gymunedol, y mae angen mawr amdano yn yr ardal. | |
| **No. 27** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 28** | **<u>ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS – 1 EBRILL 2020 I 30 MEDI 2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dechreuodd y Prif Swyddog Adnoddau drwy ddweud fod yr adroddiad yn rhoi manylion gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2020/21.<br><br>Oherwydd y cyfraddau llog manteisiol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i drefniadau dyled hirdymor o £9m gyda'r Bwrdd Benthyca Gweithiau Cyhoeddus (PWLB)/awdurdodau cyhoeddus eraill. Gwnaed y trefniadau hyn naill ai yn lle benthyciadau sy'n aeddfedu neu yn lle gwariant cyfalaf cyllid. | |

Yn gryno, er yr hinsawdd ariannol oherwydd y pandemig, mae'r awdurdod wedi perfformio'n dda yn nhermau ei weithgareddau Rheoli Trysorlys o gymharu gyda'r cyfraddau meincnod a sefydlwyd:

- Nodwyd y sicrhawyd adenillion buddsoddiad o £3,000 yn y cyfnod gyda chyfradd log gyfartalog o 0.07%. Mae hyn yn uwch na'r gyfradd meincnod o -0.07% ond yn adlewyrchu'r effaith a gafodd y pandemig ar gyfradd sylfaen banciau ac yn ei dro'r cyfraddau llog marchnad a gynigir ar fuddsoddiadau.

- Mae'n annhebyg y bydd y llog buddsoddiad yn y gyllideb flynyddol o £43,000 yn cael ei gyflawni, fodd bynnag mae faint o log a dalwyd hefyd wedi gostwng yn sylweddol sy'n gwrthweithio hyn yn ei gyfanrwydd.

- Talwyd cyfradd log gyfartalog o 0.67% ar fenthyciadau dros dro yn erbyn meincnod o 1.00%, yn gyfanswm o £159,000 am y cyfnod o chwe mis. Y gyllideb ar gyfer y llog a dalwyd ar fenthyca tymor byr oedd £660,000 am flwyddyn lawn – roedd y llog taladwy yn y flwyddyn lawn yn debygol o fod yn rhwydd o fewn y gyllideb. Felly roedd y llog sy'n daladwy gan yr Awdurdod wedi ei ostwng gymaint ag sydd modd, ac yn dystiolaeth o berfformiad da.

- Cydymffurfiwyd â'r holl Derfynau Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ystod y flwyddyn.

- Nid oedd unrhyw sefydliad y gwnaed buddsoddiadau ynddynt yn ystod y cyfnod wedi cael unrhyw anhawster yn ad-dalu buddsoddiadau a llog yn llawn felly ni fu'r Awdurdod yn agored i unrhyw golled ariannol fel canlyniad i'r hinsawdd economaidd anodd.

- Dechreuodd y Cyfleuster Adnau Cyfrif Rheoli Dyled (DMADF) drwy gynnig cyfraddau llog negyddol o fis Medi 2020 ar fuddsoddiadau a roddir gyda nhw. Roedd hyn wedi cyfyngu'r cyfleoedd buddsoddiad ar gael i'r Awdurdod. Byddai'r Awdurdod yn parhau i fonitro cyfleoedd buddsoddi eraill, fodd bynnag roedd yn cynnig cynnydd yn y swm y gallai gadw yng nghyfrif banc yr Awdurdod o £6 miliwn i £10 miliwn i osgoi mynd dros ben y terfyn presennol. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r awdurdod o ran ei lif arian.

| | | |
|---|---|---|
| | Hysbyswyd aelodau fod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr ac argymhellodd i'r Cyngor y newid arfaethedig yn y strategaeth buddsoddi.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>- nodi'r gweithgaredd a wnaed yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2020/21 a derbyn y cofnod o'r perfformiad a'r cydymffurfiaeth a sicrhawyd yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2020/2021.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH i ddiwygio'r Strategaeth Buddsoddi bresennol a chynyddu'r swm y gellir ei gadw yng nghyfrif banc yr Awdurdod o £6 miliwn i £10 miliwn. | |
| **No. 29** | **<u>POLISI TRAIS DOMESTIG, TRAIS A THRAIS RHYWIOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gael ei ystyried.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y gofynnir am gymeradwyaeth gan y Cyngor i fabwysiadu'r Polisi ar Gamdriniaeth Domestig, Trais a Thrais Rhywiol. Byddai'r polisi hwn yn disodli'r polisi presennol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a byddai'r polisi a ddiwygiwyd yn weithredol i'r Cyngor a staff seiliedig mewn ysgolion.<br><br>Roedd nifer o newidiadau allweddol i'r polisi, gyda'r nod o sicrhau fod dulliau cefnogaeth effeithlon ac ymarferol yn eu lle ar draws yr Awdurdod i gynorthwyo dioddefwyr camdriniaeth/trais domestig. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:<br><br>• Egluro diffiniadau a deddfwriaeth allweddol.<br>• Darparu hyd at 5 diwrnod o wyliau diogel ar dâl a mesurau cefnogi eraill ar gyfer dioddefwyr.<br>• Manylion rôl y rheolwr, gan gefnogi unigolion drwy broblemau.<br><br>Roedd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar 22 Ionawr 2021 wedi ystyried y polisi diwygiedig ac wedi gwneud nifer o | |

| | | |
|---|---|---|
| | awgrymiadau i wella'r ddogfen, sef:<br><br>- Asiantaethau cymorth – oherwydd newidiadau mewn cyllid, yn neilltuol ar gyfer y trydydd sector, cynhelir gwiriadau i ganfod os yw'r sefydliadau hyn yn dal i fod yn hyfyw.<br>- Cynnwys Cymorth i Ddioddefwyr, Cyfraith Claire a'r hawl i gysylltu â'r heddlu ar y rhestr o asiantaethau cefnogi.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod yn cefnogi'r polisi newydd yn llwyr ond bod rhai unigolion wedi cysylltu ag ef yn bryderus nad oedd teitl newydd y polisi yn cynnwys y gair 'menywod'. Aeth ymlaen drwy ddweud fod hwn yn fater hanesyddol neilltuol ar gyfer menywod ac oherwydd bod rhai menywod sy'n dioddef o'r math yma o gamdriniaeth yn ei chael yn anodd dod ymlaen, gofynnodd os gellid ystyried cynnwys yr agwedd hon o fewn y ddogfen. Byddai hyn yn sicrhau fod menywod yn ymwybodol o'r polisi a'i fod yn cyfeirio atynt hwy.<br><br>Gofynnodd Aelod arall fod y polisi hefyd yn adlewyrchu cymorth ar gyfer plant a theuluoedd oherwydd bod ystadegau yn awgrymu fod plant a fagwyd mewn safle cam-drin domestig yn fwy tebygol o ddod yn dramgwyddwyr yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y byddid yn cynnwys manylion asiantaethau cymorth ychwanegol o fewn y polisi a fedrai roi cymorth i deuluoedd a phlant ac ymgymerodd i gynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at 'fenywod' o fewn y ddogfen polisi.<br><br>Mynegodd Aelod ei werthfawrogiad i Bennaeth Datblygu Sefydliadol am weithredu ar awgrymiadau y Pwyllgor Craffu.<br><br>Mynegodd Arweinydd y Cyngor hefyd ei werthfawrogiad i'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol am ymgorffori cyfraniadau Aelodau'r Pwyllgor Craffu i'r polisi newydd a dywedodd ei fod hefyd yn cefnogi'r awgrymiadau ychwanegol a wnaed yn gynharach. Ar hynny cynigiodd y dylid cymeradwyo Opsiwn 2. Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef nodi a chymeradwyo'r sylwadau a'r diwygiadau/ychwanegiadau pellach i'r Polisi Cam-drin Domestig, Trais a Thrais Rhywiol. | |
| **No. 30** | **<u>POLISI CYDRADDOLDEB TRAWS</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Datblygu Sefydliadol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y datblygwyd y Polisi Cydraddoldeb Traws i atodi polisïau presennol ac i roi mwy o gefnogaeth i sicrhau bod gan staff nad oedd yn uniaethu gyda'r rhywedd a ddyrannwyd iddynt adeg eu geni yr hawl i driniaeth a diogeliad cyfartal o wahaniaethu yn y gwaith, ac i sicrhau bod rheolwyr yn glir am eu rolau a chyfrifoldebau unigol am gefnogi cydweithwyr oedd yn trosiannu tra'u bod yn y gweithle.<br><br>Datblygwyd y polisi yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Cydnabyddiaeth Rhywedd 2004 a byddai'n weithredol i holl staff y Cyngor ac, yn amodol ar gymeradwyaeth, yn cael ei argymell i gyrff llywodraethu ysgolion i gael ei fabwysiadu.<br><br>Roedd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar 22 Ionawr 2021 wedi ystyried y polisi newydd ac wedi awgrymu'r diwygiad dilynol:<br><br>- Newid y term LGBT am LGBTQ+ - byddai hyn yn gydnaws gyda'r terminoleg cydraddoldeb a hawliau dynol. Nodwyd fod LGBTQ+ yn sefyll am 'lesbian, gay, bisexual, transgender, queer or questioning'.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y caiff y sefydliadau o fewn yr atodiad eu hadolygu i restru asiantaethau hyfyw yn unig. Dywedodd Aelod y byddai'n e-bostio manylion asiantaeth cymorth neilltuol drwy'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol i'w ystyried ar gyfer ei gynnwys o fewn y polisi.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo gweithredu'r Polisi Cydraddoldeb Traws. | |
| **No. 31** | **<u>POLISI DIOGELWCH GWYBODAETH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Mae Polisi Diogelwch Gwybodaeth diwygiedig y Cyngor yn nodi'r ymagwedd a fabwysiadodd y Cyngor i ddatblygu, rheoli a gwella Diogelwch Gwybodaeth i sicrhau y caiff adnoddau gwybodaeth gwerthfawr eu diogelu'n iawn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cafodd y polisi drafft ei ddiwygio a'i ddiweddaru ac mae'n disodli nifer o bolisïau presennol y Cyngor a amlinellwyd ym mharagraff 2.2 yr adroddiad. Byddai'r polisi yn weithredol i holl staff Blaenau Gwent, Aelodau, ysgolion, contractwyr, trydydd partïon a phob defnyddiwr awdurdodedig gyda mynediad i asedau gwybodaeth y Cyngor.<br><br>Mae'r polisi egwyddorion cyffredinol yn dynodi Diogelwch Gwybodaeth h.y. cyfrinachedd, integriti ac argaeledd, yn esbonio rolau a chyfrifoldebau pawb sydd â mynediad i wybodaeth y Cyngor ac yn rhoi manylion disgwyliadau'r Cyngor wrth sicrhau fod gwybodaeth yn parhau'n ddiogel. Mae hefyd yn pwysleisio fod yn rhaid rhoi adroddiad ar unwaith os torrir diogelwch.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau bod Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar 22 Ionawr 2021 yn argymell mabwysiadu'r polisi.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth. | |
| **No. 32** | **<u>POLISI DEFNYDD DERBYNIOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau i gael ei ystyried.<br><br>Nodwyd fod y Polisi Defnydd Derbyniol diwygiedig yn cysylltu'n agos iawn gyda'r eitem flaenorol, Polisi Diogelwch Gwybodaeth.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau yn fyr am yr adroddiad a dywedodd fod y Polisi Defnydd Derbyniol a gynigir ar gyfer y Cyngor yn rhoi arweiniad a throsolwg o ddisgwyliadau'r Cyngor ar y defnydd derbyniol o systemau, adnoddau a gofodau gwaith.<br><br>Nodwyd y byddai'r polisi drafft yn disodli'r polisïau cyfredol y Cyngor:-<br>• Defnydd derbyniol o E-bost<br>• Defnydd derbyniol o'r Rhyngrwyd<br><br>Byddai'r polisi yn weithredol i holl staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ysgolion, gwirfoddolwyr, Aelodau, contractwyr, trydydd partïon a phob defnyddiwr awdurdodedig eraill gyda mynediad i asedau gwybodaeth y Cyngor a dynododd yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | egwyddorion cyffredinol a'r mesurau rheoli gorfodol oedd eu hangen ac yn berthnasol i holl wybodaeth, dyfeisiau caledwedd a data o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.<br><br>Daeth y Prif Swyddog Adnoddau i ben drwy ddweud fod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar 22 Ionawr 2021 wedi argymell mabwysiadu'r polisi.<br><br>Gofynnodd Aelod am iddi gael ei gwneud yn glir iawn y byddai'r holl wybodaeth a gaiff ei chadw neu a ganfyddir ar ddyfeisiau Blaenau Gwent yn agored i'w arsylwi gan yr awdurdod.<br><br>Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau bod yr holl staff a'r partïon y mae'r polisi yn weithredol iddynt yn cael y galedwedd angenrheidiol a'r asedau gwybodaeth i ymgymryd â'u rôl.. Er y caniateir defnydd cyfyngedig ar ddyfeisiau i staff am resymau personol, fodd bynnag, ni chaiff hyn ei annog a dylai unigolion fod yn ymwybodol fod eu defnydd o asedau gwybodaeth y Cyngor yn cael ei fonitro a'i archwilio yn rheolaidd.<br><br>Dywedodd Aelod fod etholwyr wedi gofyn iddo weithiau ddefnyddio ei liniadur personol i anfon negeseuon e-bost yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd ar eu rhan a dywedodd fod yn rhaid iddo barchu'r cais. Er ei fod yn deall bod yn rhaid monitro defnydd, byddai angen iddo gael ei fonitro gan swyddogion priodol. Gofynnir i'r Swyddog Monitro egluro pwy fyddai'r swyddogion priodol i fonitro negeseuon e-bost.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol (Swyddog Monitro), yn nhermau'r ddogfen polisi, nad yw hyn yn dynodi/enwi swyddog priodol ond mae'n amlwg y byddai'n swyddog annibynnol o swydd ddigonol uchel ac a awdurdodwyd ac a gyfarwyddwyd gan y Rheolwr Gyfarwyddwr i adolygu'r data. Caiff unrhyw archwilio a monitro ei wneud yn gyfrinachol, mewn ymgynghoriad a gyda chymorth SRS.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod y polisi yn cyfeirio at offer y Cyngor a fenthycir i Aelodau a staff. Gofynnodd am eglurdeb fod defnydd offer personol yn sicr yn fater rhwng y Cynghorydd ac unigolyn ac nad oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros hyn.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau, hyd yn oed er y gall Aelodau fod yn defnyddio dyfeisiau personol, os oes gwybodaeth sy'n ymwneud â busnes y Cyngor neu unrhyw wybodaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | bersonol yn ymwneud ag unigolion yn cael ei gadw ar y dyfeisiau hyn, mae'n gyfrifoldeb ar Aelodau i sicrhau fod yr wybodaeth hon yn parhau'n ddiogel. Er bod y polisi yn crybwyll hyn, mae'r ddogfen yn cyfeirio'n benodol at offer y cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD, yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chadarnhau Opsiwn 1, sef cymeradwyo Polisi Defnydd Derbyniol. | |
| **No. 33** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br>**<u>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan</u>**<br>- penodi cynrychiolydd yn lle.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd nad oedd wedi derbyn unrhyw enwebiadau ar gyfer y swydd a chadarnhaodd y Grŵp Llafur hefyd nad oedd wedi derbyn unrhyw ddatganiadau diddordeb gan Aelodau ei Grŵp ar hyn o bryd.<br><br>**<u>Bwrdd Strategol SRS</u>**<br>- penodi cynrychiolydd yn lle.<br><br>PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd J. Wilkins fel y cynrychiolydd yn lle'r Cynghorydd N. Daniels ar y Bwrdd uchod.<br><br>**<u>Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol</u>**<br>- penodi cynrychiolydd yn lle.<br><br>PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd J. Holt yn lle'r Cynghorydd L. Parsons ar y Pwyllgor uchod. | |
| **No. 34** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiadau dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus a bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rhesymau am y penderfyniadau dros yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 35** | **<u>CAIS I LESU TIR</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd W. Hodgins fuddiant yn yr eitem hon ac | |

| | | |
|---|---|---|
| | arhosodd yn cyfarfod tra'i bod yn cael ei hystyried.<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn fyr am yr adroddiad a dywedodd fod y Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth (fel Ymddiriedolwyr Tŷ a Pharc Bedwellte) i ddefnyddio rhan o'r Parc ar sail dros dro ar gyfer gweithgaredd ar gyfer adeiladu cyfleusterau iechyd.<br><br>Unwaith y'u cymeradwywyd gan y Cyngor byddai hefyd gwneud cais pellach i'r Comisiwn Elusennau dan Adran 105 Deddf Elusen 2011 yn gofyn am eu caniatâd i roi prydles ar gyfer y defnydd a nodir ym mharagraff 2.5 yr adroddiad.<br><br>Mewn ateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cafodd strwythur dros dro ar gyfer ystlumod ei ddarparu'n llwyr mewn cysylltiad gyda'r gweithgaredd adeiladu ac y darperir strwythur parhaol unwaith bydd y gwaith wedi'i orffen.<br><br>Yng nghyswllt ffioedd cyfreithiol, nodwyd y byddai cost unrhyw ffioedd cyfreithiol i'r Cyngor yn cael ei dalu gan y sefydliad a enwir o fewn yr adroddiad.<br><br>Croesawodd Arweinydd y Grŵp Llafur yr adroddiad a mynegodd ei werthfawrogiad i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r tîm am y gwaith a wnaed i symud ymlaen gyda chanolfan iechyd sydd ei mawr angen yn ardal Tredegar.<br><br>PENDERFYNWYD, yn unfrydol yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chymeradwyo Opsiwn 1, sef: | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r Cyngor fel ymddiriedolwyr elusennol wedi penderfynu eu bod yn fodlon, ar ôl ystyried adroddiad y syrfëwr, fod y telerau y cynigiwyd y trefniad arnynt y gorau y gellid yn rhesymol eu cael ar gyfer yr elusen a chytuno ar egwyddor prydles arfaethedig ar gyfer y darn o dir a ddangosir gydag ymyl goch ar y cynllun a atodir yn Atodiad 1 am gyfnod o dair blynedd nes bod datblygu HWBC newydd Tredegar i'r sefydliad a enwir wedi dod i ben yn amodol ar:<br><br>i) Y sefydliad a enwir yn talu rhent blynyddol fel y manylir yn yr adroddiad o £900.00 y flwyddyn.<br><br>ii) Sicrhau cydsyniad y Comisiwn Elusennau i'r brydles, sy'n rhaid ei gael cyn cwblhau'r brydles yn gyfreithiol.<br><br>Bod unrhyw dderbyniad refeniw yn cael ei neilltuo ar gyfer ei ddefnyddio gan yr elusen i hybu amcanion yr Elusen a pheidio ei gronni ar gyfer ei ddefnyddio o fewn Cronfa Gyffredinol y Cyngor. | |
| **No. 36** | **<u>DIWEDDARIAD AR GAPASITI CLADDEDIGAETHAU MYNWENTYDD</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arweinydd Tîm Golwg Strydoedd.<br><br>Dechreuodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol drwy ddweud fod y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol wedi ystyried yr adroddiad a chymeradwyo'r opsiwn a ffafrir i sicrhau y cedwir capasiti claddedigaethau o 20 mlynedd ar draws y stad.<br><br>Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymlaen drwy amlinellu lefelau | |

| | | |
|---|---|---|
| | capasiti pob un o'r mynwentydd a'r materion perchnogaeth tir a amlinellir ym mharagraff 2.4.1 yr adroddiad. Nodwyd y byddai angen cydsyniad cynllunio er mwyn caffael unrhyw dir dan Orchymyn Pryniant Gorfodol ac y byddai 'n ofynnol gael cefnogaeth gyfreithiol arbenigol i symud ymlaen gyda chaffael y tir, os oes angen.<br><br>Croesawodd Arweinydd y Grŵp Llafur yr adroddiad a'r gwaith a wnaed hyd yma.<br><br>Mewn ateb i gwestiwn am amserlenni negodi, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y caiff y trafodaethau gyda'r tirfeddianwyr a gwaith tuag at y broses Gorchymyn Pryniant Gorfodol ei wneud yn gyfochrog i sicrhau y caiff y prosiect ei gyflenwi o fewn yr amserlenni a osodwyd.<br><br>PENDERFYNWYD, yn unfrydol, derbyn yr adroddiad sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>• Penodi cyngor cyfreithiol allanol i ddarparu'r wybodaeth gyfreithiol angenrheidiol i symud ymlaen i gaffael tir.<br><br>• Cefnogi defnyddio pwerau Gorchymyn Pryniant Gorfodol i brynu'r tir fel sydd angen yn seiliedig ar y cyngor cyfreithiol a roddwyd.<br><br>Bod cyllid ar gael o fewn rhaglen gyfalaf y Cyngor i gefnogi costau prynu tir a gwaith seilwaith mynwentydd sydd eu hangen dros y tair blynedd nesaf 2021/22, 2022/23 a 2023/24, fel y dynodir ym mharagraff 5.2.1 yr adroddiad. | |
| **No. 37** | **ADDYSG – STRWYTHUR ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH**<br><br>Ymunodd y Cynghorydd J. Hill â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 12, 14 a 15 , | |

| | | |
|---|---|---|
| | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i greu strwythur parhaol a threfniadau arweinyddiaeth ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg yn dilyn y penodiad i swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod egwyddorion yr adroddiad wedi eu seilio ar hybu strwythur cynaliadwy sydd â'r capasiti i gefnogi a chyflenwi gwell cyfleoedd bywyd ar gyfer plant a phobl ifanc, yn ogystal ag ystyried y newidiadau i'r portffolio Addysg yn gysylltiedig gydag ychwanegu y swyddogaeth cleient Hamdden.<br><br>Cafodd manylion pellach y strwythur arweinyddiaeth arfaethedig eu hamlinellu ym mharagraffau 2.4, 2.6, 2.7 a 2.8 yr adroddiad ac mae'r rhain yn cynnwys rôl newydd Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, a fyddai'n gweithredu fel dirprwy i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ac a fyddai'n darparu capasiti gwella ysgolion ychwanegol. Rhoddwyd manylion swyddi Rheolwyr Gwasanaeth hefyd.<br><br>Yn nhermau'r ymgynghoriad, bu ymgynghoriad ffurfiol gyda'r undebau llafur a'r staff sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r trefniadau ailstrwythuro a chafodd barn ymgyngoreion eu hystyried o fewn yr adroddiad. Mae'r undeb llafur yn cefnogi'r egwyddorion strategol a amlinellir yn yr adroddiad ac mae'r staff wedi cydnabod yr angen i gryfhau'r arweinyddiaeth gyda'r Gyfarwyddiaeth Addysg ac yn llwyr gefnogol i'r strwythur a gynigir.<br><br>Nodwyd y cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol ac wedi mynd drwy'r broses adolygu 'gwirio a herio'. Yn ychwanegol, cafodd y strwythur arfaethedig ei feincnodi ar drefniadau arweinyddiaeth a rheoli tebyg mewn awdurdodau cyfagos a byddai'n rhoi arbediad net o tua £88,000 dros 5 mlynedd pe cymeradwyir y strwythur arfaethedig.<br><br>Ar hynny, gofynnwyd am farn Aelodau (a grynhoir islaw) a chafwyd ymateb y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg/Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Aelod Gweithredol Addysg. | |

- Dechreuodd Arweinydd y Grŵp Llafur drwy ddweud nad oedd y sylwadau dilynol wedi eu cyfeirio at unrhyw un swyddog. Aeth ymlaen drwy ddweud fod ganddo amheuon dwfn am y strwythur arfaethedig a ymddangosai'n debyg i'r hyn oedd yn weithredol cyn 2015/16 (y flwyddyn y daeth y Cyngor allan o Fesurau Arbennig). Esboniodd fod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar yr elfen Cyfarwyddwr Corfforaethol, pan y dylai'r ffocws allweddol fod ar ysgolion o ran dysgu ac arweinyddiaeth. Ychwanegodd fod Estyn wedi canmol y Cyngor yn flaenorol am ganolbwyntio ar faterion craidd h.y. darparu addysgu a dysgu ar gyfer plant a dywedodd fod ganddo hefyd bryderon dwfn am gynnwys y swyddogaeth cleient Hamdden fel rhan o'r portffolio Addysg.

  Daeth Arweinydd y Grŵp Llafur i ben drwy ddweud ei fod yn methu cefnogi'r adroddiad a dywedodd y byddia'n cyflwyno cynnig amgen ar yr adeg briodol.

- Dywedwyd y cafodd cyfran fawr o gyllideb y Cyngor ei dyrannu ar gyfer dibenion Addysg a mynegwyd na chredwyd fod yr adroddiad yn ddigon pwysig i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu ac na aethpwyd drwy'r broses craffu. Dywedodd yr Aelod y teimlai fod hyn yn ymgais i arbed arian a gofynnodd i'r Aelod Gweithredol Addysg sut y byddai'r strwythur a gynigir o fudd i'r broses hunanarfarnu.

  Dywedodd yr Aelod Gweithredol fod angen a gydnabyddir i sefydlogi a chryfhau rôl gwella'r ysgol gyda'r arbenigedd perthnasol a bod Estyn hefyd wedi cydnabod fod hwn yn faes oedd angen ei ddatblygu ymhellach. Daeth yr Aelod Gweithredol i ben drwy ddweud y credai y byddai'r strwythur arfaethedig yn cyflawni'r nod yma.

- Dywedodd Aelod y byddai mwy o angen ar gyfer y swyddi hyn pan fydd yr ymateb argyfwng i COVID-19 drosodd ac y byddai gan swyddogion yn sylweddol fwy o waith i'w wneud (yn arbennig y Rheolwr Gwasanaeth – Pobl Ifanc a Phartneriaethau) i helpu cefnogi plant yn dilyn effeithiau'r 9 mis diwethaf. Mynegodd ei bryder nad oedd y swyddi hyn ar raddfa uwch a theimlai fod hyn yn siomedig – dywedodd fod awdurdodau eraill yn defnyddio cytundeb tâl Soulbury.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bu angen fel rhan o broses 'gwirio a herio' y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol i

| | | |
|---|---|---|
| | i feincnodi gyda swyddi tebyg o fewn yr awdurdod ac awdurdodau cyfagos. Yng nghyswllt swydd Rheolwr Gwasanaeth – Pobl Ifanc a Phartneriaethau, nid oedd unrhyw swyddi tebyg yn ardal ehangach Gwent, mae gan bob awdurdod lleol ei drefniadau pwrpasol ei hun ac nid oedd unrhyw swyddogion arall yn y rhanbarth sydd â chyfrifoldebau ychwanegol yn gysylltiedig gyda'r swyddogaeth Hamdden. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y radd cyflog a werthuswyd ar gyfer y swydd yn uwch nag ar gyfer swydd Rheolwr Ieuenctid mewn awdurdodau eraill cyfagos.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn am y rheswm pam na chafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu yn y lle cyntaf, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y trefniadau adrodd democrataidd a amlinellwyd yng nghyfansoddiad y Cyngor angen i unrhyw adroddiad sydd angen cymeradwyo newidiadau strwythurol mawr gael ei ystyried gan y Cyngor. Defnyddiwyd yr un ymagwedd ar gyfer adroddiadau tebyg yn flaenorol. Ychwanegodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol na chaiff newidiadau strwythurol i adrannau eu hystyried fel rhan o'r broses craffu, maent yn cael eu cyflwyno a'u hystyried gan y Cyngor fel bod Aelodau yn cael cyfle i drafod y cynigion yn llawn.<br><br>- Mynegodd Aelod arall hefyd ei bryder na chafodd Aelodau Craffu gyfle i ystyried yr adroddiad a gofyn cwestiynau. Dywedodd y dylai'r strwythur gael ei seilio ar ddarpariaeth dysgu effeithlon ar gyfer disgyblion yn cynnwys pwyslais ar Anghenion Dysgu Ychwanegol. Canmolodd staff addysgu am eu holl waith dros yr ychydig fisoedd anodd iawn diwethaf a dywedodd, cyn y pandemig, bod y bwlch rhwng prydau ysgol am ddim a darpariaeth ADY yn cael ei bontio. Fodd bynnag, yr adborth a gaiff yn awr yw fod disgyblion yn disgyn ymhellach ar ôl a bod y bwlch yn cynyddu – mae rhai teuluoedd yn cael anawsterau gydag addysg gartref. Daeth i ben drwy ddweud na chredai ei bod yn amser addas i ailstrwythuro, dylid cael data pellach fel y gallai'r cynnig hwn gael ei graffu yn gywir.<br><br>Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol y sylwadau a wnaed gan yr Aelod a dywedodd ei bod yn flaenoriaeth i leihau'r effaith ar ddysgwyr yn ystod y sefyllfa bresennol. Ar hyn o | |

| | | |
|---|---|---|
| | bryd mae mwyafrif helaeth y dysgwyr yn derbyn dysgu o bell, fodd bynnag, cydnabuwyd y sylwadau am ysgol gartref/TGCh. Ychwanegodd y cynhaliwyd trafodaethau yn ddiweddar gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) yng nghyswllt blaenoriaethau cynllun busnes y Cyngor a chadarnhaodd mai'r brif flaenoriaeth yw hybu cynnydd disgyblion.<br><br>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn amserol iawn i ddod ag adroddiad ymlaen ar y pwynt hwn i sefydlu strwythur parhaol i greu ffocws cynaliadwy ar wella ysgolion a chynhwysiant gyda swyddog arweiniol penodol. Y ddarpariaeth arall fyddai strwythur heb fod yn barhaol am gyfnod o 18 mis.<br><br>- Dywedodd Aelod arall y teimlai fod y cynnig yn fesur rhagweithiol i gefnogi ysgolion pan mae arfer busnes arferol yn ailddechrau.<br><br>- Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod adroddiad Estyn 2015/2016 wedi dweud fod angen clir i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu. Soniwyd am y sefyllfa bresennol yng nghyswllt achosion sy'n achosi pryder (h.y. cafodd dwy ysgol uwchradd eu gosod mewn Mesurau Arbennig ar hyn o bryd). Daeth Arweinydd y Grŵp Llafur i ben drwy ddweud y dylai arbenigydd addysg fod wedi ei benodi yn y lle cyntaf a gweddill y strwythur yn cael ei ddatblygu wedyn.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y strwythur arfaethedig yn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd gan y rheoleiddwyr ac yng nghyfarfod cyswllt nesaf yr awdurdod lleol gyda'r arolygwyr, oedd i ddigwydd ym mis Mawrth, cafodd diweddariad ar gapasiti gwella ysgolion ei gynnwys fel rhan o'r agenda hwnnw. Fe wnaeth hefyd ymateb i sylwadau a gafwyd mewn cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Ysgolion ac ers ei benodiad roedd wedi hyrwyddo sicrhau capasiti ar gyfer gwella ysgolion. Nid oedd pwysigrwydd gwella ysgolion a hefyd gynhwysiant yn cael eu bychanu a byddai gan swydd newydd Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant gyfrifoldeb am y ddwy elfen yma.<br><br>Yn ychwanegol, oherwydd bod Estyn yn cymryd golwg gorfforaethol ar sut y caiff ysgolion a phobl ifanc eu cefnogi yn gyffredinol, byddai gan y swydd newydd hon rôl allweddol | |

yn nhermau'r broses hunanarfarnu ar draws y Gyfarwyddiaeth Addysg ac yn cyfrannu at agweddau corfforaethol ehangach ar draws y Cyngor. Er bod 3 ysgol yn y categori 'ysgolion yn achosi consyrn' ar hyn o bryd, o gymharu gydag awdurdodau cyfagos, mae hyn yn dal i fod yn nifer cymharol isel a chadarnhaodd ei fod yn fodlon gyda'r cynnydd a wneir i fynd i'r afael â'r problemau yn yr ysgolion hyn. Fodd bynnag, nid oedd faint o waith sydd ei angen wrth symud ymlaen yn cael ei fychanu.

- Ategodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei gonsyrn y dylai'r penodiad arbenigol fod wedi ei wneud yn gyntaf ac wedyn symud ymlaen gyda gweddill yr apwyntiadau yn cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol. Dywedodd mai dim ond ar ddeiliannau seiliedig ar ganlyniadau mae ffocws ymweliadau cyswllt Estyn. Mynegodd bryder hefyd fod cynnwys y swyddogaeth Cleient Hamdden o fewn y gyfarwyddiaeth yn groes i argymhelliad Estyn o'r ymweliad monitro h.y. dim ond gyda swyddogaethau addysg y dylai'r portffolio ymwneud.

  Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol na fedrwyd sicrhau capasiti gwell ysgolion ar sail interim, fodd bynnag roedd yn hyderus y medrid sicrhau penodiad parhaol pe cymeradwyid y strwythur newydd.

- Dywedodd Aelod arall fod hwn yn adroddiad hollbwysig sy'n adlewyrchu perfformiad addysg a'r Cyngor yn gyffredinol. Mynegwyd pryder am gyflog y Swyddog Cynhwysiant newydd – rhagwelir Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ym mis Medi ac roedd newidiadau mawr ar y gweill.

  Dywedwyd hefyd y disgwylid i'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant weithio gyda phenaethiaid ysgol sydd â llawer o brofiad yn y maes addysgol,. Fodd bynnag, mae'r disgrifiad swydd yn dweud fod profiad ar lefel uwch yn 'ddymunol' pan oedd yn 'hanfodol' ar gyfer y swydd hon. Mynegwyd pryder bellach fod y ffocws yn cael ei roi ar arbedion posibl o £88,000, pryd y dylid gwneud buddsoddiad i recriwtio i'r swydd lefel uchel hon.

  Yn ystod y cyfnod pan oedd y Cyngor mewn Mesurau Arbennig, roedd Estyn wedi asesu perfformiad ysgolion a sut y caiff ei drin. Dywedodd yr Aelod y teimlai nad dyma'r strwythur cywir ar gyfer trin ysgolion. Daeth i ben drwy

ddweud fod hyn yn hollbwysig ac y byddai'n effeithio ar holl adrannau'r Cyngor ac os nad yw'r strwythur yn addas, gallai'r Cyngor unwaith eto gael ei ddodi mewn Mesurau Arbennig. Roedd angen ystyriaeth fanwl bellach er mwyn sicrhau fod y strwythur yn gywir ar gyfer y dyfodol.

Dechreuodd y Rheolwr Gyfarwyddwr drwy gadarnhau y cafodd yr un broses (h.y. y Cyngor Llawn yn ystyried adroddiadau) ei defnyddio'n flaenorol, pan fu newidiadau i strwythurau adrannol fel rhan o'r broses Adolygu Uwch Reolwyr. Yn ychwanegol, roedd y strwythur arfaethedig wedi mynd drwy'r un broses fewnol ag ailstrwythuro blaenorol er mwyn sicrhau y cymerwyd dull gweithredu cyson ar draws y sefydliad yn nhermau graddau cyflog a ddyrannwyd a lefelau cyfrifoldeb.

Bwriedid i'r strwythur arfaethedig drin y materion a godwyd yng nghyswllt cynyddu capasiti gwella ysgolion. Nodwyd y byddai'r ddarpariaeth ADY yn ffurfio rhan o gyfrifoldebau'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant. Daeth y Rheolwr Gyfarwyddwr i ben drwy ddweud fod Aelodau wedi ei gwneud yn glir yn flaenorol parthed yr angen i weithredu fel dull gweithredu corfforaethol un Cyngor a dywedodd fod gwella addysg yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a'r Cyngor o hyn ymlaen.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod yn cefnogi'r dull corfforaethol ond nododd y dylai'r prif ffocws fod ar yr ystafell ddosbarth oherwydd y caiff y Cyngor ei farnu gan reoleiddwyr allanol.

- Dywedodd Aelod arall fod Craffu yn anwleidyddol ac y dylai'r adroddiad hwn fod wedi mynd drwy'r broses graffu gywir i drin y pryderon a godwyd cyn i'r Cyngor eu hystyried. Roedd aelodau eisiau gwneud eu gorau glas ar gyfer plant Blaenau Gwent a symud ymlaen ar y cyd ar hyn. Dywedodd fod Arweinydd y Grŵp Llafur yn flaenorol wedi profi'r lefel o her pan osodwyd y Cyngor mewn Mesurau Arbennig, felly roedd angen brys i ganolbwyntio ar ddarpariaeth addysgu a dysgu ar gyfer plant.

Yn dilyn trafodaeth faith, dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur am y rhesymau a fynegwyd yn gynharach yn y ddadl na fyddai'r Grŵp Llafur yn cefnogi'r naill na'r llall o'r argymhellion a gyhoeddwyd

gan fod y Grŵp yn parhau'n gryf o'r farn y rhoddwyd gormod o bwyslais ar yr elfen 'Cyfawryddwr Corfforaethol' yn y strwythur a dim digon ar yr elfen 'Gwella Ysgolion'.

Roedd ychwanegu y swyddogaeth cleient Hamdden fel yr amlinellir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad hefyd wedi achosi pryderon mawr ac yn anghydnaws gydag arolwg mawr diwethaf Estyn oedd yn canmol y Cyngor am dynnu swyddogaethau tebyg i arlwyo, cyllid ysgolion a chludiant ysgolion o'r gyfarwyddiaeth er mwyn canolbwyntio ar addysgu a dysgu.

Ar ôl cymryd rhan mewn brwydr hir i dynnu'r Cyngor allan o fesurau arbennig ni fedrai'r Grŵp Llafur gefnogi'r adroddiad, a **chynigiodd argymhelliad amgen.**

**Bod yr adroddiad yn cael ei dynnu'n ôl a bod y Cyngor yn cynnal adolygiad gwraidd a changen o'r strwythur drwy weithgor traws-bleidiol, mewn cysylltiad gydag arbenigedd allanol i ddatblygu fframwaith gyda gwelliant ysgolion yn brif ffocws.**

**Eiliwyd y cynnig diwygiedig hwn.**

Felly gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.

**O blaid y diwygiad -** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, L. Elias, K. Hayden, H. McCarthy, J. Millard, J. C. Morgan, K. Pritchard, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett.

**Yn erbyn y diwygiad** – Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, L. Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, B. Thomas, G. Thomas, J. Wilkins.

**Ni chariwyd y bleidlais ar y diwygiad.**

Felly cynigiwyd ac eiliwyd bod **Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir) yn gael ei gymeradwyo a'i gefnogi.** Gan nad oedd unrhyw Aelod a bleidleisiodd yn erbyn yr argymhelliad gyda diwygiad a gynigiwyd wedi ymatal rhag pleidleisio nid oedd angen pleidlais bellach wedi'i chofnodi a **chariwyd** Opsiwn 1.

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n ymwneud ag unrhyw unigolion, materion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw ymgynghoriadau neu negodiadau, neu ymgynghoriadau neu negodiadau a ystyrid, mewn cysylltiad ag unrhyw fater cysylltiadau llafur yn codi rhwng yr awdurdod neu Weinidog y Goron ac aelodau staff, neu ddeiliaid swyddi , dan yr awdurdod, a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>Cymeradwyo'r strwythur dilynol:<br><br>• Sefydlu strwythur parhaol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg fel y'i nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.<br><br>• Recriwtio i swydd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant ar unwaith.<br><br>• Sicrhau trefniant tymor byr i gefnogi dyletswyddau swydd Pennaeth Gwella Ysgolion ar sail dros dro drwy drefniant neilltuol ar gyfer penaethiaid ysgol Blaenau Gwent.<br><br>• Neilltuo'r swyddfa Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg a Phobl Ifanc a Phartneriaethau ac yn amodol ar weithdrefnau penodi Aelodau, yn unol ag egwyddorion SMR 1 & 2. Byddai arbediad refeniw net o tua £88,000 i'r gyllideb Portffolio Addysg. | |